COFNODION CYFARFOD
PWYLLGOR RHEOLI Cae Maesyderi
Dydd Iau 28 Gorffennaf 2016 AT 6:45pm
NEUADD YR EGLWYS SAN PEDR LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO'R CADEIRYDD & MATERION PERSONOL
Estynnodd y Cadeirydd, y Maer y Cynghorydd David Smith groeso i bawb oedd yn bresennol.
YN BRESENNOL: Y Maer y Cyngh. David Smith; Y Cyngh. Christopher Thomas; Eleri Thomas (Clerc: Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan).

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ymddiheurodd y Cyngh. Derek Wilson am ei anallu i fynychu'r cyfarfod. Y mae'r Gyngh. Elsie Dafis wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor yn unol â'r drefn.

3. DATGELU BUDDIANNAU: Dim wedi ei ddatgan.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL - 28ain Ebrill 2016
Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI

5.1 Torri Gwair y Cae yn ystod 2016 (Ebrill-Medi):
Y mae Mr Dai Williams yn ymwneud â dau doriad (toriad garw) y mis (gan gynnwys mis Ebrill a Medi).

5.2 Bolltio Tablau a Meinciau: Cysylltwyd â Mr Steve Edwardes a Mr Alec Page i ymwneud â'r dasg hon, ond does dim ymateb cadarnhaol wedi dod i law.

5.3 Peintio'r Meinciau: mewn llaw.

5.4 Cŵn yn Baeddu: Gellir cyflwyno Is-Ddeddf gan Gyngor Sir Ceredigion yn y dyfodol i wahardd perchnogion cŵn rhag cerdded eu bwystfilod ar y cae.

5.5 Archwiliad Blynyddol y Maes: Ystyriwyd goblygiadau Adroddiad ROSPA Arolygwyr Meysydd Chwarae; boed i'r arolwg gael ei gario allan ar yr 16eg o Fehefin 2016.

5.6 Arwyddion Dim Ysmygu: Y mae'r Cyngh. Chris Thomas mewn cysylltiad â Chyngor Sir Ceredigion.

5.7 Defnydd Presennol a Gorffennol y Cae: Ddoe a Heddiw ar y maes: Defnyddwyr y gorffennol i gynnwys yr Ysgol, RAY Ceredigion a thimau pêl-droed penodol. Ardal chwarae anffurfiol ydyw ar hyn o bryd. Teimlwyd y dylid annog mwy o Sefydliadau/Grwpiau i ddefnyddio'r Cae; dylid atgofio pobl bod y cae'n amwynder ar gyfer holl bobl Llanbedr Pont Steffan ac nid yn gyfyngedig i drigolion Ystadau Maesyderi / Gwêl Creuddyn.

5.8 Ffens: Prynwyd ar y 18/08/2010; £7,675.00 TAW £1,343.13. Awgrymodd Sylwadau'r Archwilydd Mewnol y dylai'r ffens gael ei gynnwys o fewn Cofrestr Asedau Sefydlog y Cyngor Tref.

6. CYLLID

6.1 Trac Beic: Buddsoddir £610.60 ar hyn o bryd yng Nghyfrif y Cae Banc Lloyds ac yn cynrychioli'r arian a godwyd wrth drefnu Digwyddiad Codi Arian. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Mrs Lizzie James i ofyn sut y dylai'r arian gael ei wario gan fod y sefyllfa wedi newid.
PENDERFYNWYD dychwelyd £301 (grant d/o Mr D. Conti) i'w ofal..

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm.

7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: NOS IAU 27 HYDREF 2016 am 6:45pm.